Gwaith Ieuenctid Cymru | Youth Work Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Fersiwn Haws ei Ddeall**

# Gwaith Ieuenctid a Chyllido

## Adroddiad am ariannu gyllido gwaith ieuenctid yng Nghymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu ar gyfer **Llywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adolygiad Cyllido Gwaith Ieuenctid: Crynodeb Gweithredol Cam 2**'.

**Mai 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall, ond efallai  y byddwch angen help i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:


**Ffôn:** 0300 0604400

**E-bost:** gwaithieuenctid@llyw.cymru


Gwnaeth Hawdd ei Ddeall Cymru y ddogfen hon yn Haws i'w Darllen. I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn haws ei darllen hon, cliciwch yma.

Photosymbols Licence number 403527247


© Crown copyright 2024, Welsh Government, ISBN 978-1-83625-109-5


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd.
This document is also available in Welsh.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh.

# Cynnwys

**Beth sydd yn yr adroddiad hwn** ........................................................ **4**

**Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod** ...................................................... **8**

**Beth mae'r ymchwilwyr yn meddwl ddylai ddigwydd nesaf** ...... **12**

# Beth sydd yn yr adroddiad hwn

Mae ychydig o ymchwil wedi cael ei wneud gan 3 Prifysgol Cymru:

- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- A Phrifysgol Wrecsam.

Roedd yr ymchwil am  gyllido gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Fe wnaethon nhw hyn i helpu Llywodraeth Cymru i ddarganfod mwy am sut mae gwaith ieuenctid yn cael ei ariannu ar draws Cymru.

Mae gwaith ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae'n helpu gyda:

- cael dweud eich dweud
- dysgu
- a bod y gorau mae pobl ifanc orau yn gallu bod.

Mae gwaith ieuenctid yn digwydd mewn llawer o wahanol leoedd yng Nghymru. Mae'n rhoi lle diogel i bobl ifanc.

Mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddod i adnabod pobl eraill a bod yn rhan o'r gymuned.

Mae gwaith ieuenctid yn gallu cael ei drefnu gan lawer o wahanol sefydliadau, gan gynnwys cyrff gwirfoddol a chynghorau.

Mae mudiadau gwaith ieuenctid gwirfoddol yn meddwl sefydliadau fel elusennau sy'n rhedeg gwasanaethau ieuenctid.



**Roedden ni eisiau i'r ymchwil ddarganfod:**

- Pa mor dda y mae cyllido gwaith ieuenctid yn gweithio
- Pa mor dda mae gwaith ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc

**Fe wnaethon ni edrych ar 4 maes:**

1. Yr cyllid mae sefydliadau yn ei gael, o lle maen nhw'n ei gael, a chostau rhedeg gwasanaethau.
2. Sut mae gwneud cais am gyllid yn gweithio, beth sy'n gweithio'n dda a beth sy'n anodd.
3. Sut mae arian yn cael ei wario.
4. Sut mae sefydliadau'n gwneud penderfyniadau am gyllid a sut mae pobl ifanc yn cymryd rhan.

**Fe wnaethon ni gasglu gwybodaeth gan:**

- Edrych ar y wybodaeth sydd ar gael yn barod. Er enghraifft, gwybodaeth mae cynghorau wedi ei chasglu (sydd hefyd yn cael eu galw yn awdurdodau lleol).

- Holiaduron ar gyfer sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol.

- Cyfweliadau a grwpiau ffocws. Cyfweliad ydy pan fydd un person yn siarad ag ymchwilydd. Grŵp ffocws ydy pan fydd grŵp o bobl yn dod at ei gilydd i siarad ag ymchwilydd.



# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod

Mae cyrff gwirfoddol wedi derbyn llai o gyllid yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae cynghorau wedi cael mwy o gyllid.

Ond yn gyffredinol, mae gan bob gwasanaeth lai o arian ar gyfer eu gwaith yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae hyn oherwydd costau uwch pethau fel biliau a chyflogau.

Mae cynnydd mewn costau staff yn meddwl ei bod yn fwy drud i sefydliad redeg, ac efallai bydd angen iddyn nhw newid neu stopio rhai o'u gweithgareddau.

Mae cynghorau'n tueddu i wario mwy o arian ar hyfforddiant i'w staff na chyrff gwirfoddol.

Mae cynghorau hefyd yn gwario arian yn wahanol ym mhob ardal o Gymru. Mae'n dibynnu ar beth sy'n bwysig i'r maes hwnnw a beth maen nhw'n feddwl mae angen iddyn nhw ganolbwyntio arno.



Weithiau mae cyrff gwirfoddol yn credu nad ydy hi'n ddigon clir sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am gyllid gan gynghorau, mae hyn yn cynnwys sut a phryd maen nhw'n gallu gwneud cais amdano.

Mae'r cyllid wedi dod o lawer o wahanol leoedd. Mae'r rhain yn gallu para am gyfnodau gwahanol o amser. Mae hyn yn meddwl nad ydy pethau wedi teimlo'n sefydlog iawn.

Mae rhai cyrff gwirfoddol yn codi arian hefyd.  Er enghraifft, efallai y bydd ganddyn nhw ddigwyddiadau codi arian.

Mae gan gynghorau incwm mwy sefydlog na'r cyrff gwirfoddol.

Ond mae rhai hefyd yn cael cyllid o lefydd eraill nag oedden nhw'n arfer gwneud, er enghraifft, gan wasanaethau iechyd neu hyd yn oed gan sefydliadau fel elusennau.

Mae'r newidiadau mewn cyllido wedi cael effaith ar bob gwasanaeth ieuenctid.



**Dyma rai o'r effeithiau:**

- Mae o lle mae'r cyllid yn dod yn gallu effeithio ar ba wasanaethau sy'n cael eu cynnig.
- Mae llawer mwy o amser yn cael ei dreulio yn gwneud cais am gyllid. Mae hyn yn costio llawer o oriau i staff. Mae'n cymryd amser i ffwrdd o ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc.
- Fe wnaeth dros hanner y sefydliadau ieuenctid gwirfoddol ddweud nad  oedd ganddyn nhw ddigon o arian. Doedden nhw ddim chwaith yn hyderus eu bod nhw yn gallu para i redeg gwasanaethau.
- Mae gwneud cais am gyllid yn anodd i cyrff gwirfoddol, gan fod cymaint o fathau.
- Yn aml dydy'r cyllid ddim yn para'n hir. Felly, mae'n rhaid i sefydliadau barhau i wneud cais am fwy o gyllid.
- Fe fyddai'n well gan gynghorau a chyrdd gwirfoddol i gyllid bara'n hirach. Mae hyn er mwyn iddyn nhw allu cynllunio ymhellach yn y dyfodol.
- Un o'r costau uchaf ar gyfer  gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol a chyngor ydy staffio.

- Mae'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am gyllido yn wahanol iawn ar draws Cymru. Ac mae'n dibynnu r beth sy'n digwydd ym mhob ardal.

- Mae cynghorau yn rhoi cyllid yn wahanol ym mhob ardal o Gymru. Mae hyn yn meddwl bod ardaloedd yn rhoi arian cyllid i wahanol bethau

- Mae pobl ifanc yn aml yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am sut mae gwasanaethau'n cael eu rhedeg.

- Mae pobl ifanc o wasanaethau ieuenctid y cyngor yn aml yn cymryd rhan mewn materion lleol yn eu cymuned eu hunain. Mae'n ymddangos eu bod nhw yn cymryd llai o ran mewn materion mwy sydd yn gallu effeithio ar fwy o bobl ar draws ardal fwy.



# Beth mae'r ymchwilwyr yn meddwl ddylai ddigwydd nesaf

Mae'r tîm ymchwil yn awgrymu bod angen i nifer o bethau ddigwydd nesaf ar ôl gwneud yr ymchwil yma. Dyma rai o'r prif bethau:

1. Mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi ei chasglu yn y gwaith yma i helpu i wneud model o'r ffyrdd gorau o redeg gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.

2. Fe ddylai Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill edrych ar ffyrdd o wella sut mae cyllido yn gweithio i bob sefydliad.

3. Fe ddylai Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ddod o hyd i ffyrdd o wneud cais am gyllid yn haws. Ni ddylai gymryd cymaint o amser.

4. Fe ddylai Llywodraeth Cymru edrych ar sut mae adroddiadau'n cael eu gwneud. Fe ddylai'r un wybodaeth gael ei chasglu o'r holl wasanaethau.

5. Fe ddylai Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ddarparu hyfforddiant i gyrff ieuenctid. Er enghraifft, ar sut i wneud cais am arian a chodi arian.

6. Fe ddylai fod yn glir sut mae penderfyniadau cyllido yn cael eu gwneud.

7. Mae angen i sefydliadau weithio gyda'i gilydd yn fwy.

8. Mae'n rhaid i bobl ifanc gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau.

